# SWYDD: ARTIST CYSWLLT | FRÂN WEN

**Rydyn ni'n chwilio am artist brwdfrydig, chwilfrydig a llawn syniadau i ymuno â Frân Wen am flwyddyn o greu, cyfarwyddo ac arbrofi.**

Dyma gyfle i ddatblygu dy lais a dy ymarfer artistig.

- **Cyfarwyddo dau gynhyrchiad**
- **Is-gyfarwyddo cynhyrchiad proffesiynol** ochr yn ochr â'r cyfarwyddwr arobryn **Amy Leach**
- **Cyd-greu, arbrofi a datblygu syniadau**
- **Gweithio gydag artistiaid proffesiynol, pobl ifanc a chymunedau**
- **Bod yn rhan o fywyd creadigol Nyth, Bangor**

Does dim rhaid i ti fod wedi gwneud popeth yn barod. Os oes gen ti rywfaint o brofiad, greddf artistig ac awydd i gamu ymlaen **rydyn ni eisiau clywed gen ti.**

---

## ARTIST CYSWLLT

Mae Frân Wen yn chwilio am Artist Cyswllt brwdfrydig, chwilfrydig a llawn egni i ymuno â ni am flwyddyn o greu, cyfarwyddo a datblygu.

Dyma gyfle i artist sydd â rhywfaint o brofiad ac sydd bellach yn barod i gymryd y cam nesaf: cymryd cyfrifoldeb artistig go iawn a chyfarwyddo dau gynhyrchiad o fewn rhaglen Frân Wen, ochr yn ochr â chyfleoedd i is-gyfarwyddo, cyd-greu, arbrofi a datblygu eu crefft.

Byddwch yn gweithio gydag actorion proffesiynol, pobl ifanc, pobl ag anableddau dysgu a chorfforol, cymunedau ac artistiaid llawrydd blaenllaw. Byddwch yn symud rhwng cynyrchiadau proffesiynol, gwaith cyfranogol, theatr safle-benodol a gwaith sy'n teithio.

A byddwch yn gwneud hynny o Nyth, ein cartref creadigol ym Mangor, fel rhan o dîm sy'n uchelgeisiol dros y gwaith ac yn gefnogol o'ch datblygiad chi fel artist.

Wrth galon y rôl mae cyfle prin i gymryd yr awenau fel cyfarwyddwr. Dros y 10 mis, byddwch yn cyfarwyddo dau gynhyrchiad eich hun, yn ogystal â dysgu ochr yn ochr ag artistiaid profiadol, cyd-greu a gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl.

---



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

## CYFARWYDDO

Dyma brif gyfle'r rôl: byddwch yn cael cyfrifoldeb artistig go iawn i gyfarwyddo dau gynhyrchiad gyda gwahanol grwpiau o bobl ifanc ac oedolion ifanc. Byddwch yn arwain y broses greadigol o'r ystafell ymarfer hyd at y cynhyrchiad, gan wneud penderfyniadau artistig, siapio'r gwaith a datblygu eich llais eich hun fel cyfarwyddwr.

Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddo cynhyrchiad gyda'n Cwmni Ifanc 16–25 oed, a chynhyrchiad gyda phobl ifanc ac oedolion ifanc ag anableddau dysgu a chorfforol.

Bydd pob proses yn cynnig cyd-destun gwahanol i chi arwain, gwrando, ymateb ac addasu eich ffordd o weithio – gan greu gwaith uchelgeisiol o gryfderau, syniadau a phrofiadau'r bobl yn yr ystafell.

---

## CYFARWYDDO OCHR YN OCHR AG ARTISTIAID BLAENLLAW

Byddwch yn gweithio fel Is-Gyfarwyddwr ar gynhyrchiad proffesiynol cymunedol, gan gydweithio â'r cyfarwyddwr arobryn **Amy Leach**.

Byddwch yn rhan annatod o'r broses greu, gan weithio gyda chast proffesiynol, tîm creadigol a chymunedau; o theatr safle-benodol i waith sy'n teithio bydd y flwyddyn yn rhoi cyfle i chi ehangu eich ymarfer a datblygu eich llais eich hun fel artist.

---

## AMDANOM NI

Mae Frân Wen yn gwmni theatr aml-ddisgyblaethol sy'n creu gwaith beiddgar yn yr iaith Gymraeg sy'n croesi ffiniau celfyddydol.

Rydym yn creu mewn theatrau, trefi a dinasoedd, tirweddau gwledig ac ar blatfformau digidol wastad yn esblygu i adlewyrchu'r byd o'n cwmpas.

Gyda gwreiddiau dwfn mewn cyd-greu ac arbrofi artistig, rydym wedi ein lleoli yn Nyth, ein cartref creadigol yng nghalon Bangor, Gogledd Cymru.

Rydym yn ysbrydoli, herio ac adlonni gan ddefnyddio theatr fel arf pwerus i wneud heddiw yn fwy disglair ac yfory hyd yn oed yn well.

**Ein ffordd o weithio**



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

Rydyn ni'n:

- dod ag artistiaid a chymunedau at ei gilydd i ganfod y straeon sydd angen eu hadrodd;
- meithrin arloesedd drwy gydweithio traws-gelfyddydol beiddgar;
- annog uchelgais i greu theatr sy'n epig, perthnasol a gwreiddiol.

**Beth sy'n ein diffinio?**

Rydyn ni'n ddewr, caredig, chwilfrydig a chydweithredol.
Rydyn ni'n falch o fod yn Gymraeg ac yn Gymreig.

Rydyn ni'n angerddol am gysylltu pobl o bob cefndir; egni, syniadau a gweledigaeth pobl ifanc; cynaliadwyedd a chyfiawnder hinsawdd; a chreu profiadau o'r ansawdd uchaf i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Cymru, ledled y wlad ac yn rhyngwladol.

---

## PWY RYDYN NI'N CHWILIO AMDANO?

Rydyn ni'n chwilio am artist brwdfrydig, chwilfrydig a hael sydd eisoes wedi dechrau adeiladu eu hymarfer ac sy'n barod am y cam nesaf.

Efallai eich bod wedi cyfarwyddo neu is-gyfarwyddo cynhyrchiad, arwain prosiect creadigol, neu weithio fel hwylusydd neu wneuthurwr theatr.

Does dim rhaid i chi fod wedi dilyn un llwybr penodol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod gennych rywfaint o brofiad ymarferol perthnasol, greddf artistig ac awydd i gymryd mwy o gyfrifoldeb creadigol.

**Bydd angen i chi:**

- fod â rhywfaint o brofiad proffesiynol neu ymarferol perthnasol ym maes theatr;
- gallu dangos profiad o gyfarwyddo, is-gyfarwyddo, hwyluso neu arwain proses greadigol;
- bod â diddordeb gwirioneddol mewn cyfarwyddo a chreu theatr;
- dod ag egni, chwilfrydedd, syniadau a dibynadwyedd i'r gwaith;
- gallu gweithio'n hyderus ac yn sensitif gydag amrywiaeth o bobl;
- gallu arwain ystafell, ond hefyd gwrando, cefnogi a chydweithio;
- bod yn barod i arbrofi, dysgu a herio eich hun yn artistig;
- rhannu ein hymrwymiad i waith cynhwysol ac o'r ansawdd artistig uchaf;
- gallu siarad Cymraeg yn hyderus.



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

## BETH FYDDWN NI'N EI GYNNIG?

Byddwch yn ymuno â thîm creadigol, cefnogol ac uchelgeisiol yn Nyth ac yn cael eich trin fel artist sy'n ganolog i wireddu rhaglen Frân Wen – gydag ymddiriedaeth a chefnogaeth i arwain gwaith eich hun.

Bydd y flwyddyn yn cynnig:

- cyfle pendant i gyfarwyddo dau gynhyrchiad a chymryd cyfrifoldeb artistig drostynt;
- cyfleoedd i weithio ochr yn ochr ag artistiaid llawrydd blaenllaw o Gymru a'r DU;
- mynediad uniongyrchol at brosesau creu cynyrchiadau proffesiynol;
- lle i arbrofi, rhoi cynnig ar syniadau a dysgu;
- cefnogaeth i ddatblygu eich llais a'ch ymarfer artistig eich hun.

---

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

Bydd yr Artist Cyswllt yn:

- cyfarwyddo dau gynhyrchiad gyda phobl ifanc ac oedolion ifanc ar draws rhaglen Frân Wen, gan arwain y prosesau creadigol;
- gweithio fel Is-Gyfarwyddwr ar gynhyrchiad proffesiynol cymunedol;
- cyd-gynllunio a chyd-hwyluso gweithdai creadigol;
- cyfrannu'n artistig at brosiectau eraill ar draws y rhaglen;
- cydweithio'n agos ag artistiaid, cyfranogwyr a staff Frân Wen;
- helpu i greu amgylcheddau creadigol sy'n gynhwysol, diogel ac uchelgeisiol;
- paratoi'n drylwyr ar gyfer ymarferion, gweithdai a phrosiectau;
- cyfrannu'n weithredol at fywyd creadigol Nyth a Frân Wen;
- gweithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Frân Wen.

Oherwydd natur y rôl, bydd angen rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn ogystal â theithio yn ôl gofynion y prosiectau.

Os oes gennych rywfaint o brofiad, chwilfrydedd, egni a greddf artistig ac rydych yn barod i gamu ymlaen fel cyfarwyddwr – hyd yn oed os nad ydych wedi gwneud popeth sydd yn y disgrifiad eto – peidiwch â gadael i hynny eich rhwystro rhag gwneud cais.

Rydyn ni eisiau clywed gan artistiaid sydd â'r awydd i arwain prosesau creadigol, gwneud gwaith uchelgeisiol gyda phobl eraill a datblygu eu llais eu hunain fel cyfarwyddwr.



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

## MANYLION Y SWYDD

**Teitl:** Artist Cyswllt
**Lleoliad:** Nyth, Bangor, gyda gwaith mewn lleoliadau eraill yn ôl gofynion y rhaglen
**Cytundeb:** Tymor penodol o flwyddyn i gychwyn mor fuan â phosib
**Iaith:** Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hyderus yn hanfodol ar gyfer y rôl hon
**Yn atebol i:** Cyfarwyddwr Artistig
**Cyflog:** £30,000
**Oriau:** 38 awr yr wythnos gan gynnwys oriau anghymdeithasol / penwythnos
**Dyddiad cau:** 02 Hydref 2026
**Cyfweliadau:** W/C 05 Hydref 2026

Oherwydd natur y gwaith gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, bydd yr apwyntiad yn amodol ar y gwiriadau diogelu perthnasol a thystlythyrau boddhaol.

---

## SUT I WNEUD CAIS

Rydyn ni eisiau sicrhau proses ymgeisio syml a hygyrch.

Anfonwch:a

**1. Eich CV**

**2. Cais byr sy'n dweud wrthym:**

- pam mae'r cyfle hwn yn eich cyffroi;
- beth fyddwch chi'n ei gyfrannu at y rôl;
- beth hoffech chi ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn;
- am ddarn o waith, prosiect neu brofiad creadigol sy'n dweud rhywbeth amdanoch chi fel artist.

Gallwch gyflwyno eich cais yn ysgrifenedig (dim mwy na 3 ochr A4), ar fideo (dim mwy na 5 munud o hyd) neu mewn cyfrwng creadigol arall sy'n gweithio i chi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno cais, neu os hoffech gael fformat gwahanol cysylltwch â ni'n uniongyrchol drwy ebostio nia@franwen.com neu ffonio 01248 715048.



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

# ROLE: ASSOCIATE ARTIST | FRÂN WEN

**We're looking for an enthusiastic, curious and ideas-driven artist to join Frân Wen for a year of creating, directing and experimenting.**

This is an opportunity to develop your voice and artistic practice.

- **Direct two productions**
- **Assistant direct a professional production** alongside award-winning director **Amy Leach**
- **Co-create, experiment and develop ideas**
- **Work with professional artists, young people and communities**
- **Be part of the creative life of Nyth, Bangor**

You don't need to have done everything already. If you have some experience, artistic instinct and a desire to take the next step, **we want to hear from you.**

---

## ASSOCIATE ARTIST

Frân Wen is looking for an enthusiastic, curious and energetic Associate Artist to join us for a year of creating, directing and developing.

This is an opportunity for an artist with some experience who is now ready to take the next step: taking on real artistic responsibility and directing two productions as part of Frân Wen's programme, alongside opportunities to assistant direct, co-create, experiment and develop their craft.

You'll work with professional actors, young people, people with learning and physical disabilities, communities and leading freelance artists. You'll move between professional productions, participatory work, site-specific theatre and touring work.

And you'll do this from Nyth, our creative home in Bangor, as part of a team that is ambitious about the work and supportive of your development as an artist.

At the heart of the role is a rare opportunity to take the lead as a director. Over the 10 months, you'll direct two productions yourself, as well as learning alongside experienced artists, co-creating and working with a wide range of people.



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

## DIRECTING

This is the main opportunity within the role: you'll have real artistic responsibility for directing two productions with different groups of young people and young adults. You'll lead the creative process from the rehearsal room through to production, making artistic decisions, shaping the work and developing your own voice as a director.

This will include directing a production with our 16-25 Young Company, and a production with young people and young adults with learning and physical disabilities.

Each process will offer a different context in which to lead, listen, respond and adapt your way of working - creating ambitious work from the strengths, ideas and experiences of the people in the room.

---

## DIRECTING ALONGSIDE LEADING ARTISTS

You'll work as an Assistant Director on a professional community production, collaborating with award-winning director **Amy Leach**.

You'll be an integral part of the creative process, working with a professional cast, creative team and communities. From site-specific theatre to touring work, the year will give you the opportunity to broaden your practice and develop your own voice as an artist.

---

## ABOUT US

Frân Wen is a multidisciplinary theatre company creating bold work in the Welsh language that crosses artistic boundaries.

We create in theatres, towns and cities, rural landscapes and on digital platforms, constantly evolving to reflect the world around us.

With deep roots in co-creation and artistic experimentation, we are based at Nyth, our creative home in the heart of Bangor, North Wales.

We inspire, challenge and entertain, using theatre as a powerful tool to make today brighter and tomorrow even better.

**The way we work**



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

We:

- bring artists and communities together to find the stories that need to be told;
- nurture innovation through bold cross-artform collaboration;
- encourage ambition to create theatre that is epic, relevant and original.

**What defines us?**

We are brave, kind, curious and collaborative.

We are proud to be Welsh and to work in the Welsh language.

We are passionate about connecting people from all backgrounds; the energy, ideas and vision of young people; sustainability and climate justice; and creating the highest quality experiences for audiences in North Wales, across the country and internationally.

---

## WHO ARE WE LOOKING FOR?

We're looking for an enthusiastic, curious and generous artist who has already begun to build their practice and is ready for the next step.

Perhaps you have directed or assistant directed a production, led a creative project, or worked as a facilitator or theatre-maker.

You don't need to have followed one particular path. What matters is that you have some relevant practical experience, artistic instinct and a desire to take on more creative responsibility.

**You will need to:**

- have some relevant professional or practical experience in theatre;
- be able to demonstrate experience of directing, assistant directing, facilitating or leading a creative process;
- have a genuine interest in directing and making theatre;
- bring energy, curiosity, ideas and reliability to the work;
- be able to work confidently and sensitively with a range of people;
- be able to lead a room, while also listening, supporting and collaborating;
- be willing to experiment, learn and challenge yourself artistically;
- share our commitment to inclusive work of the highest artistic quality;
- be able to speak Welsh confidently.



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

**WHAT WILL WE OFFER?**

You'll join a creative, supportive and ambitious team at Nyth and be treated as an artist who is central to delivering Frân Wen's programme - with the trust and support to lead your own work.

The year will offer:

- a clear opportunity to direct two productions and take artistic responsibility for them;
- opportunities to work alongside leading freelance artists from Wales and the UK;
- direct access to professional production-making processes;
- space to experiment, try out ideas and learn;
- support to develop your own voice and artistic practice.

---

## KEY RESPONSIBILITIES

The Associate Artist will:

- direct two productions with young people and young adults across Frân Wen's programme, leading the creative processes;
- work as an Assistant Director on a professional community production;
- co-plan and co-facilitate creative workshops;
- contribute artistically to other projects across the programme;
- work closely with artists, participants and Frân Wen staff;
- help create creative environments that are inclusive, safe and ambitious;
- prepare thoroughly for rehearsals, workshops and projects;
- actively contribute to the creative life of Nyth and Frân Wen;
- work in accordance with Frân Wen's policies and procedures.

Due to the nature of the role, some evening and weekend work will be required, as well as travel according to the needs of the projects.

If you have some experience, curiosity, energy and artistic instinct and are ready to take the next step as a director - even if you haven't yet done everything in the description - please don't let that stop you from applying.

We want to hear from artists who are excited to lead creative processes, make ambitious work with others and develop their own voice as a director.



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048

## JOB DETAILS

| | |
|---|---|
| **Title:** | Associate Artist |
| **Location:** | Nyth, Bangor, with work at other locations according to the needs of the programme |
| **Contract:** | One-year fixed-term contract, starting as soon as possible |
| **Language:** | The ability to speak Welsh confidently is essential for this role |
| **Reports to:** | Artistic Director |
| **Salary:** | £30,000 |
| **Hours:** | 38 hours per week, including evenings/weekends |
| **Closing date:** | 02 October 2026 |
| **Interviews:** | W/b 05 October 2026 |

Due to the nature of the work with children, young people and vulnerable adults, the appointment will be subject to the relevant safeguarding checks and satisfactory references.

---

## HOW TO APPLY

We want to ensure a simple and accessible application process.

Please send:

**1. Your CV**

**2. A short application telling us:**

- why this opportunity excites you;
- what you would bring to the role;
- what you would like to develop during the year;
- about a piece of work, project or creative experience that tells us something about you as an artist.

You can submit your application in writing (no more than 3 sides of A4), by video (no more than 5 minutes long) or in another creative format that works for you.

If you have any questions about the role, need any support with your application, or would like an alternative format, please contact us directly by emailing nia@franwen.com or calling 01248 715048.



Nyth, Ffordd Garth, Bangor LL59 5HS
Rhif cofrestredig 3079992
Rhif cofrestredig elusen 1060546

post@franwen.com
franwen.com
01248 715048